CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dylan Wyn Rees**
**Grŵp: Plaid Cymru** **Ward: Canolbarth Môn**

## 1 – Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd | Nifer a fynychwyd |
|---|---|---|
| Y Cyngor | 9 | 7 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 | 4 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | 2 | 2 |
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Is-Gadeirydd) | 11 | 10 |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | 6 | 5 |
| Pwyllgor Disgyblu | 0 | 0 |

Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.

*Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.*

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 4 allan o 6 cyfarfod a drefnwyd. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Grantiau Cyffredinol yr Ymddiriedolaeth ac nid oeddwn wedi gallu mynychu'r 1 cyfarfod a drefnwyd

| Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol: | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd | Nifer a fynychwyd |
|---|---|---|
| Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn) | 8 | 4*<br>*Yn anffodus, mae cyfarfod y CIC yn gwrthdaro weithiau gyda chyfarfodydd y Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 4 | 4 |
| Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 3 | 3 |
| Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 6 | 6 |
| Llywodraethwr – Ysgol Bodffordd | 10 | 9 |
| Llywodraethwr – Canolfan Addysg y Bont | 8 | 6 |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Yn ychwanegol â gwasanaethu ar y pwyllgorau uchod, rwyf hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd yn fy ward yn rheolaidd gan gynnwys:

Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned – Rwy'n Gynghorydd Tref gyda Chyngor Tref Llangefni (Mynychais 13 o'r 14 = 93% cyfarfod o'r Cyngor Llawn) ac rwyf hefyd wedi cymryd arnaf y cyfrifoldeb ymhlith y tri Chynghorydd Canolbarth Môn am fynd i gyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanddyfnan ac rwy'n eu mynychu'n rheolaidd.

Rwyf hefyd ar adegau'n mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Bryngwran a Chyngor Cymuned Trewalchmai er mai fy nghyd-aelod yng Nghanolbarth Môn, Bob Parry, yw'r prif gynrychiolydd ar y pwyllgorau hynny.

Cyfarfodydd Llywodraethwyr Ysgol – Rwy'n llywodraethwyr ysgol yng Nghanolfan Addysg y Bont ac yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd.

Bedair blynedd yn ôl, cefais fy mhenodi i wasanaethu ar Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru sydd yn un o wyth o bwyllgorau gwarchod statudol GIG Cymru yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd a'r cleifion mewn gofal iechyd. Fel rhan o fy rôl, rwyf wedi cynorthwyo gydag arddangosfeydd cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o waith y CIC.

Mae sefydliadau eraill yr wyf yn ymwneud â nhw yn cynnwys yr isod:

- Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru sydd wedi gwneud gwaith gwych i gael gwared ar wiwerod llwyd o Ynys Môn ac ailsefydlu'r ynys fel cynefin naturiol ar gyfer y wiwer goch.
- Rwy'n ysgrifennydd ymddiriedolwyr Gobaith Môn, sef elusen sy'n hyrwyddo gwaith Cristnogol ieuenctid ar yr ynys. Ar hyn o bryd, mae gweithwyr ifanc Gobaith Môn yn gweithio'n agos iawn gyda staff yn Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch.
- Rwy'n aelod o Bartneriaeth Llangefni sy'n ceisio dod ag unigolion a sefydliadau at ei gilydd gyda'r nod o adfywio Llangefni.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd, fi oedd Is-gadeirydd y Cyngor Sir gyda hynny'n cynnwys dirprwyo ar ran y Cadeirydd ar ddyletswyddau dinesig o bryd i'w gilydd.

Dau gorff arall yr wyf wedi cael fy mhenodi i wasanaethu arnynt ers mis Mai llynedd yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFRA) a Phanel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (NWPCP). Mae'r NWFRA yn monitro gweithgareddau a chyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac mae'r NWPCP yn monitro perfformiad a chyllideb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Ynghyd â mynychu amryfal gyfarfodydd, mae gennyf lwyth achosion sylweddol wrthi i mi geisio gwneud gwaith ar ran fy etholwyr. Mae enghreifftiau o'r achosion yr wyf wedi delio â nhw dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

- Cynllunio – gwrthwynebiadau i geisiadau a helpu gyda cheisiadau

- Tai – rhoi cyngor ar y polisi gosod tai a chynorthwyo cleientiaid sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref neu sydd eisiau trosglwyddo i eiddo arall
- Priffyrdd – cwynion ynghylch goryrru, parcio a chyflwr arwynebedd y ffyrdd
- Rheoli Gwastraff – cwynion ynghylch casglu gwastraff a chael cynwysyddion gwastraff newydd
- Yr Amgylchedd – cwynion ynghylch cyflwr llwybrau cyhoeddus a gadael gwastraff yn anghyfreithlon
- Gwasanaethau Cymdeithasol – cynorthwyo gyda chwynion
- Iechyd – cyfeirio achwynwyr i'r Cyngor Iechyd Cymuned

Er mwyn sicrhau fy mod ar gael yn rhwydd i fy etholwyr, rwyf wedi creu fy nhudalen Facebook fy hun, Cynghorydd Dylan Rees.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi bod yn brysur iawn yn fy rôl fel Cadeirydd Prosiect Parc Chwaraeon Trefol Llangefni. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r gwaith adeiladu'n tynnu at ei derfyn ac mae agoriad swyddogol wedi ei drefnu ar gyfer 16 Mehefin. Bydd y Parc yn gyfleuster gwych i'w ddefnyddio gan y gymuned gyfan. Yn ychwanegol at ardal chwaraeon olwynion ar gyfer sgrialfyrddau, sgwteri a beiciau BMX, bydd yno hefyd ardal pêl-fasged, wal ddringo a champfa awyr agored.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf hefyd wedi bod yn brysur yn mynychu cyfarfodydd ymgynghori mewn perthynas â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ardal Llangefni.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod | 11/05/2017 |
| Hyfforddiant IPad | 12/05/2017 |
| Sesiwn Briffio – Cynllun Corfforaethol a Côd | 18/05/2017 |
| Cyllid gan gynnwys Cyllidebu a Thrysorlys | 25/05/2017 |
| Diogelu Sylfaenol | 01/06/2017 |
| Y Cyfansoddiad | 05/06/2017 |
| Archwilio effeithiol | 15/09/2017 |
| Cyflwyniad i'r Archwilydd Cyffredinol | 21/09/2017 |
| Cwestiynnu effeithiol yn Sgriwtini | 04/12/2017 |
| Cyflwyniad i e-ddysgu | 16/01/2018 |
| Cyflwyniad i e-ddysgu | 16/01/2018 |
| Rheoli Risg | 23/03/2018 |
| Hyfforddiant ACE | 28/03/2018 |
| Sesiynau Briffio Aelodau ( 11 allan o 12) | Mai 2017– Mawrth 2018 |
| *Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Fel y gallaf wasanaethu fy etholwyr hyd orau fy ngallu, rwy'n sylweddoli bod rhaid i mi ymwneud â'r gymuned gymaint ag y gallaf. O ganlyniad, rwy'n mynychu gwahanol ddigwyddiadau diwylliannol/cymuned a chyhoeddus yn rheolaidd, e.e.

Digwyddiadau Diwylliannol – Eisteddfod y Llys, agoriadau gwahanol arddangosfeydd yn Oriel Ynys Môn, Cymanfa Ganu yng Ngwalchmai, lansio llyfr yn y Theatr Fach – "Croeso i Fôn" gan J Richard Williams.

Digwyddiadau Cymunedol – Carnifal Llangefni, Rali'r Ffermwyr Ifanc ym Mona, digwyddiadau glanhau cymunedol yn Llangefni a drefnwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus, Cyngherddau Nadolig yn Ysgol Gymuned Bodffordd, Canolfan Addysg Y Bont a Neuadd Goffa Bodwrog, agor yr Iorwerth Arms, Bryngwran fel hyb cymunedol, gwobrau prosiect Phoenix i bobl ifanc yng Ngorsaf Dân Llangefni, Ffair Hydref yng Nghae Sioe Mona, ffair Ysgol Gyfun Llangefni, wythnos Cadw'n Iach ac Eco yn Ysgol y Graig, Llangefni, Slam Bwyd Llangefni.

Digwyddiadau Cyhoeddus – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CAB Ynys Môn, CCB Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru, Lansio Rhaglen Cefnogi Pobl Gorwel, Ailagor Siop Tenovus yn Llangefni, Gwasanaeth Nadolig Coeden o Oleuadau yn Eglwys Sant Cyngar, Llangefni.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=267&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Dylan Rees** | **Ebrill 2018** |